OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 753

# Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024

## RHAN 3

## Gofynion samplu a hysbysu

### Gofynion hysbysu gan weithredwr labordy cymeradwy

**16.** Rhaid i weithredwr labordy cymeradwy hysbysu'r ceidwad, Gweinidogion Cymru a'r milfeddyg am ganlyniad prawf o dan erthyglau 28, 31, 34, 37, 40 ac 41 o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad y prawf a rhaid cynnwys manylion am—

(a) enw a chyfeiriad y ceidwad,

(b) y disgrifiad o'r sampl,

(c) y dyddiad y cymerwyd y sampl,

(d) y dyddiad y profwyd y sampl,

(e) rhif CPH y daliad yr oedd y fuches yn cael ei chadw neu'r anifail yn cael ei gadw arno ar yr adeg y cymerwyd y sampl neu'r samplau, a

(f) pan fo tag clust wedi ei osod, y rhif tag clust swyddogol o'r tag clust swyddogol.